23 Mehefin 2026

Annwyl

**ATISN 26854**

Y cais

Diolch ichi am eich cais a ddaeth i law ar 1 Ebrill 2026. Roeddech yn gofyn am yr wybodaeth ganlynol:

*“Pob dogfen, cyngor, gohebiaeth, cofnod yn gysylltiedig â phenderfyniad Gweinidogion Cymru i gymeradwyo fersiwn newydd o Bolisi Gorfodi Comisiynydd y Gymraeg o dan adran 108 y Mesur ar 24 Mawrth 2026.”*

Nodoch fod eich cais am wybodaeth wedi ei gyfyngu i wybodaeth ers 6 Ionawr 2026.

Ein hymateb

Mewn ymateb i’ch cais, amgaeaf gopi o’r wybodaeth ganlynol ar ffurf dogfennau pdf:

- **Dogfen 1**: E-byst mewnol yn clirio cyngor gweinidogol (gwybodaeth wedi’i hepgor);
- **Dogfen 2:** E-byst mewnol yn ymwneud â chyngor gweinidogol (gwybodaeth wedi’i hepgor);
- **Dogfen 3:** Cyngor Gweinidogol (gwybodaeth wedi’i hepgor)
- **Dogfen 3(1):** Polisi Gorfodi Comisiynydd ddiwygiedig drafft (Cymraeg);
- **Dogfen 3(2):** Polisi Gorfodi Comisiynydd ddiwygiedig drafft (Saesneg);
- **Dogfen 4:** E-byst rhwng Comisiynydd y Gymraeg a Llywodraeth Cymru, dyddiedig 24 Mawrth 2026 (gwybodaeth wedi’i hepgor);
- **Dogfen 4(1):** Rhagair diwygiedig - atodiad i e-bost rhwng Comisiynydd y Gymraeg a Llywodraeth Cymru, dyddiedig 24 Mawrth 2026;
- **Dogfen 5:** Llythyr gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a’r Gymraeg at Gomisiynydd y Gymraeg – atodiad at e-bost gan Lywodraeth Cymru at Gomisiynydd y Gymraeg, dyddiedig 24 Mawrth 2026
- **Dogfen 6 –** E-bost mewnol yn cadarnhau penderfyniad yr Ysgrifennydd Cabinet dros Gyllid a’r Gymraeg (gwybodaeth wedi’i hepgor).

Mae Llywodraeth Cymru o'r farn bod rhywfaint o’r wybodaeth yr ydym yn dal yn esempt o'r gofynion datgelu. Yn benodol, rydym yn ystyried bod rhywfaint o’r wybodaeth yr ydym yn dal yn bodloni’r esemptiadau canlynol o’r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 (“Deddf 2000”):

- adran 40(2) (Gwybodaeth Bersonol), ac
- adran 42 (Braint Broffesiynol Gyfreithiol)

Rydym hefyd wedi penderfynu bod rhywfaint o'r wybodaeth yn yr atodiadau a nodir uchod yn esempt rhag y gofynion datgelu o dan adrannau 40(2) a 42 o'r Ddeddf 2000, ac felly rhaid ei chadw'n ôl. Mae'r rhesymau dros weithredu'r esemptiadau wedi'u nodi'n llawn yn Atodiad A y llythyr hwn.

Yn ogystal, mae rhywfaint o’r wybodaeth yr ydym yn dal wedi'i heithrio o dan adran 21 o'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth – gwybodaeth sy'n rhesymol hygyrch i’r ceisydd trwy ddulliau eraill. Mae atodiad 1 i ddogfen 3 eisoes wedi’i rhyddhau mewn ymateb i gais rhyddid gwybodaeth blaenorol (ATISN 26547 - Dogfen 14).

Y camau nesaf

Os ydych yn anfodlon â'r modd y mae Llywodraeth Cymru wedi ymdrin â'ch cais, gallwch ofyn am adolygiad mewnol o fewn 40 diwrnod gwaith ar ôl dyddiad yr ateb hwn. Dylech anfon cais am adolygiad mewnol at Swyddog Rhyddid Gwybodaeth Llywodraeth Cymru drwy'r post i'r cyfeiriad canlynol:

Yr Uned Hawl i Wybodaeth
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

neu drwy e-bostio rhyddidgwybodaeth@llyw.cymru

Cofiwch nodi'r cyfeirnod ATISN uchod.

Mae gennych hawl hefyd i gwyno wrth y Comisiynydd Gwybodaeth. Gallwch gysylltu â'r Comisiynydd Gwybodaeth yn y cyfeiriad canlynol:

Information Commissioner’s Office
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire
SK9 5AF.

Fodd bynnag, dylech nodi nad yw'r Comisiynydd fel arfer yn ymchwilio i gŵyn nes ei fod wedi bod drwy ein proses adolygu mewnol ni.

Yn gywir

**Atodiad 1 - Esemptiadau**

Mae'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 ("Deddf 2000") yn rhoi'r hawl i unrhyw un ofyn i awdurdod cyhoeddus drefnu bod gwybodaeth y gofynnwyd amdani gael ei rhoi ar gael i'r cyhoedd yn ehangach. Gan fod rhyddhau'r wybodaeth yn golygu ei bod ar gael i'r byd, nid dim ond i'r sawl a wnaeth y cais, y mae angen i awdurdodau cyhoeddus ystyried effeithiau'r cam o drefnu bod yr wybodaeth ar gael yn rhwydd i bawb. Mae'r ystyriaethau ehangach hynny yn drech nag unrhyw fuddiant personol sydd gan y sawl sy'n gwneud y cais, o ran cael gweld yr wybodaeth.

Rwyf wedi penderfynu cadw'r wybodaeth ganlynol yn ôl:

- Data personol unigolion;

Mae'r Atodiad hwn yn amlinellu'r rhesymau dros weithredu adran 40(2) o'r Ddeddf 2000, a'n hystyriaeth ddilynol o Brawf Lles y Cyhoedd.

**Gweithredu adran 40(2) o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth – Gwybodaeth Bersonol**

Mae adran 40(2) ynghyd â'r amodau yn adran 40(3)(a)(i) neu 40(3)(b) yn darparu eithriad absoliwt os byddai datgelu'r data personol yn torri unrhyw un o'r egwyddorion diogelu data.

Diffinnir 'data personol' yn adran 40(7) o Ddeddf 2000 fel un sydd â'r un ystyr ag yn Rhannau 5 i 7 o Ddeddf Diogelu Data 2018 (gweler adran 3(2), (4) ac (14) o'r Ddeddf honno) ac mae'n golygu unrhyw wybodaeth sy'n ymwneud ag unigolyn byw adnabyddus neu adnabyddadwy. Unigolyn byw adnabyddadwy yw un y gellir ei adnabod, yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, yn benodol trwy gyfeirio at ddynodwr fel enw, rhif adnabod, data lleoliad, dynodwr ar-lein neu at un neu fwy o ffactorau sy'n benodol i hunaniaeth gorfforol, ffisiolegol, genetig, meddyliol, economaidd, diwylliannol neu gymdeithasol yr unigolyn.

Rydym wedi dod i'r casgliad, yn yr achos hwn, bod peth o'r wybodaeth yn cynnwys data personol. Yn benodol, mae'r wybodaeth yn cynnwys enwau, teitlau swyddi a chyfeiriadau e-byst unigolion.

O dan Adran 40(2) o'r Ddeddf Rhydd Gwybodaeth, mae data personol wedi'i eithrio rhag rhyddhau os yw'n ddata personol nad yw'n dod o fewn is-adran (1) o'r Ddeddf. Mae unrhyw wybodaeth y mae cais am wybodaeth yn ymwneud â hi hefyd yn wybodaeth esempt os yw'n ddata personol nad yw'n dod o fewn is-adran (1) a bod yr amodau cyntaf, ail neu drydydd a gynhwysir yn adrannau 40(3A), (3B) a (4A) wedi'u bodloni. Rydym yn ystyried mai'r amod sydd mwyaf perthnasol yn yr achos hwn yw'r amod yn adran 40(3A)(a) sy'n datgan y byddai datgelu'r wybodaeth i aelod o'r cyhoedd ar wahân i'w datgelu o dan y Ddeddf hon yn groes i unrhyw un o'r egwyddorion diogelu data. Rydym yn ystyried mai'r egwyddor sydd mwyaf perthnasol yn yr achos hwn yw'r un cyntaf. Mae hyn yn nodi bod yn rhaid i ddata personol fod wedi ei:

> *"processed lawfully, fairly and in a transparent manner in relation to the data subject"*

Mae ein hystyriaeth o'r profion uchod wedi'i nodi isod:

**1. Dadleuon budd cyhoeddus o blaid rhyddhau'r wybodaeth**

Mae'r wybodaeth yn cynnwys data personol, sef enwau, teitlau swyddi a chyfeiriadau e-bost unigolion. Mae buddiant dilys mewn deall cyd-destun cyfathrebu, ac at ba sefydliadau y cyfeiriwyd yr ohebiaeth ato.

**2. Dadleuon budd cyhoeddus o blaid peidio â rhyddhau'r wybodaeth**
Rydym o'r farn, nad oes angen datgelu'r data personol er mwyn gallu deall cyd-destun yr ohebiaeth sy'n cael ei ddal gan y cais. Trwy ddisodli'r enwau, cyfeiriadau e-byst a theitl swyddi gyda gwybodaeth disgrifiadol (e.e. enw Swyddog Llywodraeth Cymru ac ati) lle'n briodol, gallwn gynnal y cyd-destun y mae buddiant dilys yn bodoli iddo heb ddatgelu'r data personol. Byddai datgelu'r wybodaeth yn effeithio ar hawliau sylfaenol y gwrthrychau data o dan ddeddfwriaeth diogelu data.

**3. Cydbwyso buddiannau'r cyhoedd**
Oherwydd bod golygu enwau, teitlau swyddi a chyfeiriadau e-byst swyddogion yn rhoi cyd-destun lle'n angenrheidiol, mae'n cwrdd â'r buddiant dilys ac felly nid oes angen datgelu'r data personol. Nid oes felly angen ystyried cydbwysedd buddiannau ymhellach, ac mae'r wybodaeth yn cael ei chadw'n ôl.

**Gweithredu adran 42 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth (Braint Broffesiynol Cyfreithiol)**

Mae adran 42 o'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth yn nodi:

*"(1) Information in respect of which a claim to legal professional privilege or, in Scotland, to confidentiality of communications could be maintained in legal proceedings is exempt information."*

Mae braint broffesiynol gyfreithiol yn cynnwys cyfathrebu cyfrinachol rhwng cyfreithwyr a'u cleientiaid a wnaed at y prif bwrpas o geisio neu roi cyngor cyfreithiol.

Roedd eich cais yn gofyn am *"bob dogfen, cyngor, gohebiaeth, cofnod yn gysylltiedig â phenderfyniad Gweinidogion Cymru i gymeradwyo fersiwn newydd o Bolisi Gorfodi Comisiynydd y Gymraeg o dan adran 108 y Mesur ar 24 Mawrth 2026".* Roedd eich cais yn gofyn am wybodaeth ers 6 Ionawr 2026.

Mae rhywfaint o'r wybodaeth yr ydym yn dal yn cynnwys cyfathrebiadau rhwng cyfreithwyr a swyddogion Llywodraeth Cymru neu gyngor cyfreithiol a ddarparwyd i'r Ysgrifennydd Cabinet, cyfathrebiadau a wnaed at y prif bwrpas o geisio neu roi cyngor cyfreithiol ac felly rydym yn ystyried bod "braint broffesiynol cyfreithiol" yn berthnasol i'r wybodaeth honno a fod eithriad adran 42 felly yn gymwys.

Mae'r eithriad adran 42 yn eithriad amodol, sy'n golygu ei fod yn ddarostyngedig i brawf budd cyhoeddus.

**Prawf Budd Cyhoeddus**

Yn unol â'r prawf budd cyhoeddus, rydym wedi ystyried a yw'r budd i'r cyhoedd o gynnal yr eithriad hwn yn cael ei drechu gan y budd i'r cyhoedd o'i ddatgelu.

Mae angen i gynghorwyr cyfreithiol allu cyflwyno'r darlun llawn i'w cleientiaid, sy'n cynnwys dadleuon yn cefnogi casgliadau terfynol ac unrhyw wrth-ddadleuon perthnasol. Dyma'r pwrpas y tu ôl i'r egwyddor hirsefydlog o fraint broffesiynol gyfreithiol.

Mae natur cyngor cyfreithiol yn aml yn golygu nodi'r dadleuon posibl dros ac yn erbyn safbwynt penodol. Os yw derbynwyr neu ddarparwyr cyngor cyfreithiol yn credu ei fod yn debygol y byddai'r cyngor cyfreithiol yn cael ei gyhoeddi, yna mae'n llai tebygol y byddai cyngor cynhwysfawr yn cael ei gomisiynu neu ei ddarparu yn y dyfodol. Byddai hyn yn gallu arwain at niwed sylweddol i ansawdd penderfyniadau gan na fyddai'n gwbl gwybodus. Byddai hefyd yn tanseilio gallu cynghorwyr cyfreithiol a'u cleientiaid i ddibynnu yn hyderus

ar yr amddiffyniad a roddir gan yr egwyddor o fraint broffesiynol gyfreithiol. Credwn felly fod diddordeb cyhoeddus cryf mewn cynnal yr esemptiad.

Rydym yn cydnabod y gallai datgelu'r cyngor roi rhywfaint o ddealltwriaeth ychwanegol i'r cyhoedd o'r broses o wneud penderfyniadau gan Lywodraeth Cymru.

Gallai'r cyngor hefyd fod yn berthnasol i ystyriaethau wrth ddiweddaru'r polisi gorfodi i'r dyfodol. O ganlyniad, rydym o'r farn ei bod yn hanfodol cynnal y fraint broffesiynol gyfreithiol yn yr achos hwn, er mwyn sicrhau y gall Llywodraeth Cymru barhau i geisio ac i dderbyn cyngor cyfreithiol cyflawn, agored ac annibynnol yn y dyfodol.

Gan ystyried yr holl ffactorau hyn, ein casgliad yw bod y budd i'r cyhoedd wrth beidio â datgelu'r wybodaeth dan sylw yn drech na'r budd i'r cyhoedd wrth ei datgelu.